Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Kingsland

**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 2TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Kingsland

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Kingsland |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 196 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 142 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 27 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 26.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 28.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 15.8 |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/06/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Kingsland yn ysgol groesawgar sydd ag ethos cynhwysol, hapus a gofalgar ble mae pawb yn cydweithio’n ddiflino fel rhan o gymuned ddysgu bwrpasol. Mae’r disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ymdrin ag eraill gyda pharch a chwrteisi canmoladwy ac mae eu hymddygiad yn wych. Mae ethos diogelu'r ysgol yn gryf ac mae’r disgyblion yn mwynhau dod i’r ysgol ac yn teimlo’n ddiogel wrth eu gwaith a’u chwarae.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau rhifedd, Saesneg a digidol o’u mannau cychwyn. Mae disgyblion yn dueddol o ddefnyddio Saesneg fel iaith ar gyfer cymdeithasu a chyfathrebu â chyfoedion ac oedolion yn yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn llesteirio datblygiad eu medrau cyfathrebu Cymraeg.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod dda o brofiadau symbylus a diddorol sydd yn adlewyrchu’r cyd-destun lleol yn effeithiol. Mae barn y disgybl yn rhan bwysig o’r broses gynllunio, ac o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig wrth ymroi i’w profiadau dysgu. Mae athrawon a staff eraill yn meithrin perthynas weithio gynhyrchiol ac annwyl â’r disgyblion sydd yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth. Mae awyrgylch positif yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu pwrpasol a byrlymus. Ar y cyfan, mae staff yn defnyddio ystod briodol o dechnegau addysgu effeithiol. Er hyn, nid yw adborth gan athrawon bob tro yn targedu’r camau nesaf yn y dysgu yn ddigon effeithiol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd yn blaenoriaethu lles pob disgybl a sicrhau eu bod yn cael y profiadau dysgu gorau posibl. Mae’n rhannu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae’r pennaeth yn cael ei gefnogi’n ymroddgar gan staff ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol gyda brwdfrydedd a balchder ac maent ganddynt ymwybyddiaeth dda o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Maent yn darparu cefnogaeth bwrpasol i arweinwyr a staff.

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd disgyblion o Gymraeg llafar

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith yn effeithiol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth gychwyn eu hamser yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd a chyfathrebu llawer o'r disgyblion yn is na'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu hoed. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cychwyn yr ysgol yn gallu siarad Cymraeg. Dros eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd priodol yn natblygiad eu medrau o'u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac ar oedolion. Maent yn dangos parch canmoladwy tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gwrtais gan ddefnyddio iaith ac ystum corff addas.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio patrymau iaith Cymraeg cyffredin yn briodol tra'n sgwrsio. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio termau pwnc perthnasol yn y Gymraeg yn hyderus, er enghraifft wrth ddatgan os yw gwrthrychau'n dryloyw, yn dryleu neu'n 'n ddi-draidd. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn dewis berfau cryno yn hyderus ar gyfer cychwyn brawddegau. Ar adegau, mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn sgwrsio yn y Gymraeg gydag oedolion gan ddefnyddio patrymau iaith sydd o fewn eu profiad yn weddol gywir. Er hyn, yn ystod amseroedd egwyl ac wrth drafod eu gwaith yn y dosbarth, nid ydynt yn defnyddio Cymraeg yn ddigon rheolaidd. Maent yn dueddol o droi at y Saesneg, hyd yn oed wrth ymateb i gwestiynau Cymraeg er eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed, ar y cyfan. Mae hyn yn llesteirio cynnydd eu medrau llafar Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn siarad yn hyderus ac aeddfed trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen ac mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn amrywio eu llais yn bwrpasol wrth ddarllen ac yn mynegi eu barn yn effeithiol wrth drafod eu hoff gymeriadau. Erbyn Blwyddyn 4, mae disgyblion yn darllen gyda rhuglder cynyddol ac mae llawer yn defnyddio strategaethau addas i ganfod ystyr geiriau anghyfarwydd. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn darllen yn hyderus ac yn trin a thrafod digwyddiadau a syniadau o fewn testun yn fedrus. Yn gyffredinol, mae medrau darllen disgyblion yn fwy cadarn yn Saesneg nag yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, maent yn ffurfio ystod gynyddol o lythrennau yn gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 3, mae disgyblion yn defnyddio technegau sy'n bwrpasol i'r ffurf ysgrifenedig, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd i adrodd ar argyfwng ar y môr gan ddefnyddio cyflythrennu ar gyfer llunio pennawd trawiadol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn hyderus wrth ysgrifennu yn Saesneg. Fodd bynnag, yn y Gymraeg, maent yn orddibynnol ar sgaffaldiau ysgrifennu a chymorth athrawon wrth ysgrifennu darnau o waith estynedig.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn dewis darnau arian yn fedrus er mwyn talu am eitemau penodol. Maent yn trafod eu dulliau yn hyderus, a lle bo'n briodol, yn cynnig datrysiadau amgen. Ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn datblygu

eu medrau trin data yn llwyddiannus wrth iddynt gyfrifo modd, canolrif a chymedr set o ddata. Mae'r disgyblion hynaf yn cymhwyso ystod o fedrau yn bwrpasol wrth iddynt ddehongli graddfa ar gynllun o dŷ ac yna mynd ati i gyfrifo cost atgyweirio'r gwaith coed yn yr ystafelloedd. Mae disgyblion yn manteisio'n fwriadus ar gyfleoedd i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau digidol cryf. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau codio cynnar gan ddefnyddio pecyn pwrpasol i gyfarwyddo crwydryn rhithiol i ddilyn llwybr penodol ar y sgrin. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng i gyflwyno gwybodaeth am y gofod gan gynnwys effeithiau sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u cynulleidfa. Yn gyffredinol, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso ystod dda o fedrau'n hyderus ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynyddu'n llwyddiannus . Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu eu medrau modur mân, er enghraifft gan ddefnyddio toes yn ofalus i ffurfio llythrennau. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o dactegau amddiffyn mewn gemau pêl ac yn gweithio'n gorfforol galed dros gyfnodau mwy estynedig.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n briodol ac maent yn frwdfrydig wrth ymgymryd â thasgau creadigol. Mae disgyblion Blwyddyn 1, er enghraifft, yn creu addurn trwy ddefnyddio deunyddiau naturiol megis cregyn a darnau o froc môr.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar sicrhau'r safonau lles uchaf posibl ar gyfer y disgyblion. Mae bron bob un disgybl yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol ac yn dangos balchder dros fod yn rhan o gymuned ysgol gynhwysol, gofalgar a chartrefol.

Mae'r disgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt ac yn eu trin yn deg. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu perthynas waith glòs sydd wedi'i seilio'n gadarn ar ymddiriedaeth a pharch. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn wych ac maent yn gwrtais tuag at ei gilydd. Maent yn dangos gofal canmoladwy tuag at eu cyfoedion. Mae bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Nodwedd gref yw hunanymwybyddiaeth y disgyblion o'u lles emosiynol a'u gallu i fynegi unrhyw bryderon ac ofnau i oedolion, er enghraifft wrth iddynt eu cyfarch bob bore wrth ddrws y dosbarth.

Mae bron bob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu gweithgareddau. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu tasgau am gyfnodau estynedig, gan ddangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gyflawni eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau wrth fynd ati i ddatrys problemau yn annibynnol. Maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau ymdopi os ydynt yn wynebu anawsterau. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy'n barod i ddysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n iach a heini. Maent yn mwynhau defnyddio'r offer tu allan yn bwrpasol yn ystod amser egwyl, er enghraifft y cwrs cadw'n heini a'r llwybr rhedeg bob tywydd. Mae'r

disgyblion yn frwdfrydig mewn sesiynau addysg gorfforol ac mae llawer yn mwynhau'r clybiau chwaraeon a gynhelir wedi oriau ysgol, er enghraifft Clwb Rhedeg Kingsland. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i fod yn unigolion iach a hyderus, ac maent yn gwybod sut i wneud dewisiadau doeth mewn perthynas â'u deiet.

Mae pob disgybl yn cael cynnig i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth ac maent yn eu diwallu'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn frwdfrydig wrth iddynt gyflwyno syniadau er mwyn gwella'r adnoddau yn yr ardal tu allan er budd eu cyfoedion. Mae'r Pwyllgor Eco yn angerddol am ddiogelu'r warchodfa natur leol gan fynegi eu pryderon trwy anfon llythyr i wrthwynebu datblygiadau arfaethedig yno. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau synhwyrol am beth yr hoffent ei ddysgu trwy eu profiadau ar gyfer y tymor i ddod.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau ac i ddangos empathi tuag at eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion wedi croesawu a chefnogi cyfoedion sydd wedi gorfod ffoi o'r rhyfel yn Wcráin i'w plith. Drwy astudio hanesion a heriau a wynebodd Martin Luther King a Betty Campbell, maent yn dysgu am anghyfiawnder ac yn dangos ymwybyddiaeth aeddfed o faterion yn ymwneud â thegwch, cydraddoldeb a hawliau plant.

Mae bron bob un disgybl yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ymweld â mannau sy'n hybu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, fel ymweld â Rheiffordd Llyn Padarn a Chastell Caernarfon.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Trwy gydweithio'n bwrpasol â staff, rhieni a disgyblion, mae arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer cynnig cwricwlwm sy'n darparu ystod o brofiadau diddorol ac ysgogol. Mae hyn wedi ei seilio ar hyrwyddo cymuned ofalgar lle mae'r disgyblion yn cael eu herio a'u hannog i wneud eu gorau.

Mae'r amgylchedd ddysgu yn atyniadol a symbylus ac mae hyn yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n hynod fedrus. Maent yn cynllunio a darparu gweithgareddau diddorol sy'n manteisio'n llwyddiannus ar yr amgylchedd hwn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael mynediad at brofiadau dysgu cyfoethog tu fewn a thu allan. Mae'r profiadau hyn yn meithrin eu chwilfrydedd ac yn eu hannog i gydweithio'n greadigol a meddwl yn feirniadol, er enghraifft wrth iddynt gyfansoddi yn y tipi cerddoriaeth a phrynu nwyddau yn y siop chwarae rôl. Erbyn brig yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio cyfarpar perthnasol i fesur ardaloedd ar dir yr ysgol er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o berimedr ac arwynebedd.

Mae staff yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol ar gyfer cefnogi'r disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, o fewn eu gwaith thematig, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig at wahanol bwrpasau. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn dylunio poster i hysbysebu sioe Alaw y forforwyn ac mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu

bywgraffiad Adolf Hitler. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion yn gynhwysfawr ac mae athrawon yn fodelau rôl da. Fodd bynnag, er bod disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol mewn sefyllfaoedd ffurfiol, yn gyffredinol, prin iawn y mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llafar Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac wrth drafod eu gwaith.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n dda â’r disgyblion i gyd- gynllunio gweithgareddau dysgu sydd yn ennyn diddordeb ac ysgogi’r rhan fwyaf o’r disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn awgrymu syniadau ar gyfer gweithgareddau diddorol yr hoffen nhw eu cwblhau yn y dosbarth i ymarfer y medrau. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig tuag at eu dysgu ac yn ymroi’n bwrpasol i’w tasgau.

Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol drwy ddefnydd meddylgar o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr i’r ysgol. Er enghraifft, fel sbardun i’r uned o waith Ymhell Bell i Ffwrdd, mae’r ysgol wedi ymweld ag arsyllfa Banc Jodrell. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau ac yn meithrin eu dyheadau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol. Agwedd greiddiol o waith yr ysgol yw'r cyfleoedd gwerthfawr sy’n cael eu darparu gan staff i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig a hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn astudio hanes Ynys Llanddwyn a’r cysylltiad lleol â Santes Dwynwen.

Mae staff yn sefydlu perthynas waith gofalgar â’r disgyblion, sy’n meithrin awyrgylch ddysgu gynhyrchiol a chefnogol. Mae cyflwyniadau athrawon yn fyrlymus ac yn ysgogol ac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gelfydd. Mae’r athrawon a chymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda, yn annog eu cyfranogiad ac yn canmol eu hymdrechion yn gyson tra byddant yn gweithio a rhyngweithio â’u cymheiriaid. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ymgysylltu â’u dysgu am gyfnodau estynedig.

Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn rhannu nodau’r gwersi ac yn cynnwys y disgyblion yn y broses o drafod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo yn eu gwaith. Mae athrawon a chymorthyddion yn defnyddio technegau holi’n effeithiol er mwyn adalw dysgu blaenorol a chadarnhau lefel deallusrwydd y disgyblion. Un nodwedd effeithiol o’r addysgu yw sut mae athrawon yn rhoi dewis i’r disgyblion ynglŷn â lefel her tasgau. Mae hyn yn annog disgyblion i wthio eu hunain ac yn hybu eu cynnydd yn y medrau. Mae athrawon yn darparu adborth i ddisgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw’r adborth yn targedu’r camau nesaf yn y dysgu yn ddigon effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn monitro ac olrhain cynnydd unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn fanwl ac maent yn adnabod y disgyblion yn dda. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn glir ar gyflawniad disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r berthynas waith agos rhwng y staff a’r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn arwain at gymuned sydd ag ethos gofalgar, cyfeillgar a chynnes. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae staff yn sefydlu awyrgylch gadarnhaol ym mhob dosbarth sydd yn cefnogi’r disgyblion i ymgartrefu'n

ddi-ffwdan a chyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu eu lles a'u hymdeimlad o fodlonrwydd ac yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryf. O ganlyniad, mae bron bob disgybl sydd ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r Cydgysylltydd ADY (CADY) a'r cymorthyddion yn ymroddgar a thanbaid dros ddiwallu eu cyfrifoldebau ac anghenion pob disgybl. Dan arweiniad angerddol a sgilgar y CADY, mae staff yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ac yn dadansoddi'r wybodaeth yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar ac yn darparu ystod o raglenni cefnogi bwriadus sy'n targedu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ynghyd â chefnogi lles emosiynol disgyblion. Er enghraifft, mae'r Ystafell Enfys yn darparu hafan effeithiol ar gyfer cefnogi'r disgyblion mwy bregus. Mae cyswllt a chyfathrebu clòs rhwng yr ysgol a rhieni, gan gynnwys pan maent yn adolygu cynnydd a chytuno ar y camau nesaf i ddarparu cefnogaeth i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol ag ystod o asiantaethau allanol i gefnogi'r ddarpariaeth ADY, er enghraifft y gwasanaeth seicoleg addysg.

Mae staff yn darparu'n fwriadus ar gyfer diwallu anghenion lles y disgyblion. Maent wedi sefydlu amrywiaeth o strategaethau blaengar yn ymwneud ag ymateb i effaith trawma ar les disgyblion yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn cadarnhau sut maent yn teimlo gydag oedolyn wrth iddynt gyrraedd y dosbarth ac mae staff yn ymateb yn fedrus i unrhyw faterion sy'n cael eu codi gan y disgyblion. Mae'r 'Corneli Ymdawelu' ym mhob dosbarth yn darparu cyfle i ddisgybl gymryd munud i feddwl os ydynt yn teimlo cyfnod o orbryder neu anesmwythder.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm, er enghraifft fel sbardun effeithiol ar gychwyn uned o waith. Mae'r disgyblion hynaf yn ymweld ag ardal y dociau yn Lerpwl i ddysgu am gyfraniad morwyr a llongau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae hyn yn ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion ac yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch a'r hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddu.

Mae cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig. Mae'r rhain yn cynnwys dathlu dydd Gŵyl Ddewi drwy gynnal cyngerdd a chymryd rhan mewn gorymdaith yng Nghaergybi. Mae pawb yn dathlu 'Siaradwr Cymraeg yr Wythnos' yn ystod y gwasanaeth ysgol a threfnir ymweliadau addysgol lleol yn gyson. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio eu credoau ysbrydol a moesegol wrth ystyried ystod o grefyddau yn y gwasanaethau boreol ac yn ystod gwaith thema sy'n trafod, er enghraifft, Iddewiaeth a Hindŵaeth.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod dda o gyfleoedd sy'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon a hamdden sy'n datblygu disgyblion i fod yn unigolion iach ac hyderus. Er enghraifft, maent yn mynychu cystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd, rhedeg traws gwlad a chriced.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cadw disgyblion yn ddiogel yn gadarn a chynhwysfawr ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar hapusrwydd a lles disgyblion a staff ynghyd â sicrhau y profiadau dysgu gorau posibl ar gyfer bob disgybl. Mae'r pennaeth wedi rhannu'r weledigaeth hon gyda staff, disgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu mawr sydd yn cydweithio tuag at wireddu geiriau arwyddair yr ysgol, sef sefydlu 'gwreiddiau i dyfu, adenydd i hedfan'.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hunan ac eraill ac mae'r holl staff yn ymroddgar ac angerddol wrth iddynt fynd ati i ddiwallu eu cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae awyrgylch o bwrpas a bwrlwm yn treiddio trwy holl waith a bywyd yr ysgol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu trwy agweddau cadarnhaol y disgyblion tuag at eu dysgu a sut maent yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos o ddiogelu yn hynod lwyddiannus ac mae staff, disgyblion a rhieni yn cyfrannu at gymuned ddysgu ofalgar sy'n blaenoriaethu lles emosiynol a chorfforol bob disgybl ynghyd â chynnydd yn eu dysgu.

Trwy ddefnydd pwrpasol o ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso, gan gynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a rhannu holiaduron â rhieni, mae arweinwyr yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o dysgu, cynnydd a lles disgyblion. Maent yn dadansoddi'r dystiolaeth yn fedrus ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn adnabod blaenoriaethau sy'n cysylltu'n glir â'r meysydd sydd angen eu datblygu, yn ogystal â rhoi sylw da i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer ADY a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn rheolaidd ac yn mynd ati i adrodd ar eu canfyddiadau i'r staff a'r corff llywodraethol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae amcanion staff yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ynghyd â'u hanghenion datblygu unigol. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarn ar gyfer hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae cyfleoedd eang i staff fynychu hyfforddiant ac ymgymryd â chyfrifoldebau rheolaethol sy'n ychwanegu at gapasiti arwain yr ysgol. Mae staff yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill ac yn rhannu arferion da yn gyson o fewn yr ysgol a thu hwnt.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac maent yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda. Maent yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr gan arweinwyr am berfformiad yr ysgol. Mae aelodau'r corff yn ymweld â'r ysgol ac yn ymgymryd â theithiau dysgu a chyfleoedd i siarad â'r disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt rôl bwrpasol ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn bwrpasol. Maent yn sicrhau lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu symbylus i gefnogi'r ddarpariaeth a'r profiadau dysgu. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus ac maent yn cysylltu'r gwariant â blaenoriaethau'r cynllun gwella yn briodol. Mae arweinwyr yn adolygu gwariant yn fanwl er mwyn sicrhau defnydd priodol ohono. Maent yn gwneud

defnydd da o grantiau er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion penodol. Er enghraifft, maent yn darparu rhaglenni cefnogi pwrpasol i hybu medrau llythrennedd a rhifedd a darparu cefnogaeth ar gyfer eu lles.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2023